

Blegywryd – M, Peniarth 33, f. 65v

Gwragedd

Or kymer gwr wreic o rod kenedyl, ac os gat kyn penn y seith mlyned y wrthaw, talet idi teir punt ynn y hegwedi. Os merch breyr vyd, punt a hanner ynn y chowyll a wheugeint ynn y gobyr. Os merch tayawc vyd, punt a hanner yn y heguedi a wheugeint ynn y chowyll a pedeir ar hugeint ynn y gobyr. Os gwedi seith mlyned y gat ef hi, bit rann deu hanner y rydunt onnyt breint a dyry ragor y'r gwr. Deuparth y plant a daw y'r gwr: yr hynaf a'r ieuhaf, a'r trayan y'r vam. Os agheu a'e gwahan, bit rann deu hanner y rydunt o pob peth.

Blegywryd – M

Gwragedd

Os cymer gŵr wraig o rodd cenedl, ac os yw'n ei gadael cyn pen y saith mlynedd, taled iddi dair punt ar gyfer ei hagweddi. Os merch brëyr fydd hi, punt a hanner ar gyfer ei chowyll a chweugain ar gyfer ei gofr. Os merch taeog fydd hi, punt a hanner ar gyfer ei hagweddi a chweugain ar gyfer ei chowyll a phedair ar hugain ar gyfer ei gofr. Os bydd yn ei gadael wedi saith mlynedd, dylai [popeth] gael ei rannu'n ddau hanner rhyngddynt oni ddyry braint fwy i'r gŵr. Daw dwy draean o'r plant i'r gŵr: yr hynaf a'r ieuengaf, a'r traean i'r fam. Os angau a fydd yn eu gwahanu, dylai popeth gael ei rannu'n ddau hanner rhyngddynt.

Iorwerth – D, Peniarth 32, f. 20r

Gwragedd

Os o vywyt y gwahanant, trigyet hi a'r eidi yn y thy hyt ym pen y naw nos a naw niheu y wybot ae kyfreithawl eu gwahan. Ac os iawn eu gwahan, aet hi a'e da o'r ty ym penn y nawuet dyd: y da o'r blaen, ac yn ol y geinhawc diwethaf aet hitheu ehun. Sarhaet gwreic wryawc, wrth vreint y da: nyt amgen traean sarhaet y gwr. Kyn no'e rodi y wr, wrth vreint sarhaet y brawd; nyt amgen hanner sarhaet. Y galanas, na gwedw na gwryawc vo: hanner galanas y brawd. Or myn y gwr wreic arall gwedy yd ysgarho a'r wreic kyntaf, ryd vyd y gyntaf. O deruyd y wr yscar a'e wreic a mynnu o honno wr arall, a bot yn ediuar gan y gwr kyntaf yscar a'e wreic, a'e godiwes ohonaw hi a'r neill troet yn y gwely a'r llall odieithyr y gwely, y gwr kyntaf a dyly kaffel y wreic.

Iorwerth – D

Gwragedd

Os mewn bywyd y gwahanant, arhosed hi a'i heiddo yn ei thŷ hyd ymhen naw nos a naw nydd i wybod ai cyfreithiol eu gwahaniad. Ac os iawn eu gwahaniad, aed hithau a'i heiddo o'r tŷ ymhen y nawfed dydd: ei heiddo ar y blaen, ac aed hithau ei hun ar ôl y geiniog ddiwethaf. Sarhaed gwraig wriog, yn ôl braint ei heiddo: sef traean sarhaed ei gŵr. Cyn ei rhoi i wŵr, yn ôl braint sarhaed ei brawd; sef hanner ei sarhaed. Ei galanas, os yn weddw neu'n wriog y bo: hanner galanas ei brawd. Os myn y gŵr wraig arall wedi iddo ysgaru â'r wraig gyntaf, bydd y gyntaf yn rhydd. Os yw'n digwydd i wŵr ysgaru â'i wraig a honno'n dymuno cael gŵr arall, a bod y gŵr cyntaf yn edifar iddo ysgaru â'i wraig, ac iddo ei goddiweddyd â'r naill droed yn y gwely a'r llall y tu allan i'r gwely, mae'n iawn i'r gŵr cyntaf gael y wraig.

Cyfnernth – W, Cotton Cleopatra A XIV, 79v

Gwragedd

Or yscar gwr a gureic kyn pen y seith mlyned, val hyn y renir y dootrefyn y rydunt. Y gwr bieu a uo o'r dillat guely y rydaw a'r llawr, a'r wreic bieu y teispan. Y gwr bieu yr yt, a'r wreic bieu y blawt parawt. Y gwr bieu y bryccan, a'r nithlen, a'r gobenyd tyle, a'r cwlltyr, a'r uwyall gynut, a'r llawuwyall, a'r crymaneu oll namyn vn cryman. Y wreic bieu y uwyall lydan, a'r swch, a'r pal, a'r vn cryman, a'r perued taradyr, a'r gwr bieu yr heyrn oll namyn hynny. Y wreic bieu car yr ychen, a'r guedeu, a'r llaethlestri oll eithyr vn payol, a'r dysgleu oll eithyr vn dyscyl bieu y gwr. Y wreic bieu yr emenyn oll namyn vn llestreit bieu y gwr; ac or byd breuanau emenyn y gwr a geiff vn. Y wreic bieu y kic oll a uo ar y llawr a halen arnaw a heb halen, a'r kaws oll a uo yn heli a heb halen arnunt; a'r gwr bieu y kic a'r caws drychauedic oll. Y wreic bieu bot yn y thy yn arhos y ran o'r da hyt ym pen y nawuetdyd. Gureic a dyweto y bot yn ueichawc pan uo marw y gwr, hi a dyly bot yn y thy hynny wypper a uo beichawc. Ac ony byd beichawc, talet tri buhyn camlwrw y'r brenhin ac adawet y ty a'r tir y'r etiued.

Cyfnernth – W

Gwragedd

Os bydd gŵr a gwraig yn ysgaru cyn pen y saith mlynedd, fel hyn y rhennir eu dodrefn rhyngddynt. Y gŵr biau unrhyw ddillad gwely a fo rhyngddo a'r llawr, a'r wraig biau'r cwrlid. Y gŵr biau'r yd, a'r wraig biau'r blawd parod. Y gŵr biau'r blanced, a'r nithlen, a'r gobennydd gwely, a'r cwlltwr, a'r fwyall gynnud, a'r llawfwyall, a'r crymanau oll heblaw un cryman. Y wraig biau'r fwyall lydan, a'r swch, a'r rhaw bâl, a'r un cryman, a'r ebill canolig, a'r gŵr biau'r heyrn i gyd heblaw hynny. Y wraig biau car yr ychen, a'r gweddau, a'r llaethlestri oll ar wahân i un piser, a'r dysglau oll ar wahân i un ddysgl biau'r gŵr. Y wraig biau'r ymenyn oll heblaw un llond llestr biau'r gŵr; ac os bydd breuanau ymenyn caiff y gŵr un. Y wraig biau'r cig i gyd a fydd ar y llawr a halen arno a heb halen, a'r caws i gyd a fo wedi eu halltu a heb halen arnynt; a'r gŵr biau'r cig a'r caws sydd yn hongian i gyd. Dylai'r wraig fod yn ei thŷ yn aros ei rhan o'r eiddo hyd ymhen y nawfed dydd. Mae'n iawn i wraig a ddywedo ei bod yn feichiog pan fo marw ei gŵr fod yn ei thŷ hyd oni wyper a yw'n feichiog. Ac oni fydd yn feichiog, taled dair buwch yn gamlwrw i'r brenin a gadawed y tŷ a'r tir i'r etifedd.